# papur priordy



**FY MRENIN A'N CREAWDWR MAWR,**
**LLUNIWR Y NEFOEDD OLL, A'R LLAWR,**
**DY ALLU A'TH DDOETHINEB, IÔR,**
**WELER MEWN AWYR, TIR A MÔR.**

**Peter Williams (1723-69)**

***Blodau i Blant***
***Argraffwyd yng Nghaerfyrddin gan Evan Powell yn y flwyddyn 1758***

**Gweler yr erthygl y tu mewn**

**Rhifyn 363**
**PAPUR CHWEFROR 2023**

# Gair gan Beti-Wyn

## Sbring Clîn

***DYDD MAWRTH, 21 CHWEFROR*** – Diwrnod pancos … neu grempog … neu ffrois!  Cyfle, yn ôl traddodiad, i glirio 'r bwyd bras o'r tŷ yn barod ar gyfer Tymor y Grawys, sy'n cychwyn y diwrnod canlynol ar Ddydd Mercher Lludw.



Yn ôl calendr yr Eglwys Gristnogol, y Grawys, fel y gwyddoch yn ddigon da, yw'r cyfnod o 40 niwrnod cyn y Pasg. Dyma gyfnod i ni oedi a meddwl. Cyfle i ystyried beth yw ein blaenoriaethau, a chyfle i edrych ar ein bywyd ysbrydol wrth i ni baratoi ar gyfer y Pasg.

Yn ôl yng nghyfnod yr Eglwys Fore, roedd deddfau caeth i'w dilyn adeg y Grawys ac, yn eu plith, y syniad bod angen i bob Cristion feddwl cael ei lanhau'n ysbrydol. Awgrymwyd y byddai ymatal rhag bwyta cig ac unrhyw gynnyrch anifeiliaid yn ddisgyblaeth ddefnyddiol i'w harfer ar yr adeg hon. Y cyfan roedd ei angen ar y corff oedd pryd bwyd syml iawn gyda'r nos.


Heddiw, mae rhai Cristnogion yn dal i feddwl ei bod yn beth da i ymatal rhag gwneud neu fwyta rhyw bethau neilltuol yn ystod tymor y Grawys a hynny er mwyn cofio am aberth Iesu ac am y temtasiynau y bu'n rhaid iddo eu gwrthsefyll yn yr anialwch. Dewis rhai yw rhoi'r gorau i fwyta siocled neu bethau melys tra bo eraill yn rhoi'r gorau i wylio'r teledu neu chwarae gemau cyfrifiadurol. Fe fydd eraill yn ceisio rhoi mwy o amser yn ystod y dydd i feddwl am Dduw a gweddïo.



Dyma'r adeg hefyd y bydd nifer yn meddwl am lanhau eu cartrefi – y glanhau gwanwynol (*spring cleaning*). Pam yn y gwanwyn? Wel, oherwydd bod y dydd a'r oriau o olau yn ymestyn. Ond hefyd, am fod golau yn datguddio rhyw bethau (e.e. dwst!) sydd wedi bod mas o'r golwg dros fisoedd tywyll y gaeaf!

Fe allai tymor y Grawys hwn fod yn amser da i ni i gyd geisio

‘glanhau’ ein bywyd hefyd. Efallai bod rhai agweddau y gallen ni eu brwsio o’r ffordd, arferion sydd angen eu golchi, neu ymddygiad y gallen ni ei newid.





***OND CYN HYNNY***, mwynhewch eich pancos…crempog… ffrois!

**Gweddïwn**



Ein Tad,
wrth i ni ymbaratoi
i deithio i’r anialwch gyda Iesu,
a chael ein hysbrydoli gan ei eiriau,
bydded i ni ollwng gafael yn dawel
ar bopeth sy’n galw am ein sylw,
gan osod i lawr yn dyner bopeth sydd ar ein meddwl, ac agor drws ein calonnau’n ofalus
i dderbyn dewrder, gobaith a nerth newydd.

**Amen**

## DARLLENIADAU

| Mis Chwefror | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Mathew 5: 13-20 |
| Wythnos 2 | Mathew 5: 21-37 |
| Wythnos 3 | Mathew 17: 1-9 |
| Wythnos 4 | Mathew 4: 1-11 |
| Dydd Gŵyl Dewi | Salm 87 |

**DIOLCH YN FAWR**

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**RHIAN EVANS**
**JOHN GREEN**
**ELUNED MADDOX**
**GWILYM A MYFANWY JONES**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

## PANED A SGWRS




**Bore Mercher - 10.30**
**Gwesty'r Llwyn Iorwg**



**15 Chwefror 2023**
**22 Mawrth 2023**
**26 Ebrill 2023**

**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**
***(Bydd rhaid i bob un brynu ei goffi ei hunan )***



**MUNUD YN DY GWMNI!**

**Cyfres newydd o fyfyrdodau byrion digidol gyda Tudur Dylan Jones. Mae'n rhan o ddarpariaeth ddigidol ein heglwys dan nawdd Rhaglen Arloesi a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.**

**COFIWCH WYLIO**

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN**

**CWRDD CHWARTER**
**Dydd Iau, 9 Mawrth 2023 - Capel Smyrna**
**Y Gynhadledd am 10.30**
**Cyfarfod y prynhawm am 1.30**

**Croeso i bawb**

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?**
**Trowch at: cyfundeb.com**

**OEDFA GYMUN YR OFALAETH
AR DDECHRAU BLWYDDYN NEWYDD**



***WRTH*** i ni wynebu blwyddyn newydd a dathliadau'r Nadolig drosodd, rhaid cofio mai nid man i aros yno ar daith ffydd yw'r preseb. Dyw Duw ddim yn dymuno i ni wneud hynny ychwaith. Mae gweddill ein taith ffydd gennym i'w theithio.

Cyrhaeddodd y doethion Fethlehem ar Nos Ystwyll ond aethant oddi yno ar hyd ffordd arall. Rhaid i ninnau droedio'r ffordd newydd a wnaed gan Iesu yn ystod y flwyddyn hon. A chysur mawr yw gwybod fod Duw wedi addo ein cynnal a chynnig maddeuant a chyfle newydd hefyd.




Dyna oedd bwrdwn neges ein Gweinidog yn Oedfa Gymun yr Ofalaeth a gynhaliwyd yn y Priordy ar Fore Dydd Calan.

Cymerwyd at y darlleniadau gan Gwyneth Griffiths (Bancyfelin – Eseia 60: 1-6) a Marlene Jones (Cana – Mathew 2: 1-12). Cafodd ein Gweinidog gymorth Mair Jones (Cana), Eirian Thomas (Bancyfelin), Elis Jones a Philip Jones (Y Priordy) i weini'r Cymun. Roedd Janet Davies wrth yr organ. Canwyd *Yr Iesu a deyrnasa'n grwn* (245), *Ganol gaeaf noethlwm* (466), *Tyrd atom ni arweinydd pererinion* (222) ac *Arglwydd Iesu dysg im gerdded* (710) yn ystod yr oedfa. Y cyhoeddwr oedd Jayne Woods.



***BU'R*** oedfa arbennig hon yn ddechrau da i gyfnod newydd. Braf hefyd oedd gallu croesawu cyfeillion o'r tu hwnt i'r Ofalaeth atom i'r oedfa gyntaf hon yn 2023.

**Elinor Wyn Reynolds….**

**Cwrdd Plant y Priordy**
**Ionawr 2023**



Daeth eto flwyddyn newydd (i fi gael aralleirio geirie'r emyn) ... a dyma ni, wedi cyrraedd 2023 ac yn cynnal cwrdd plant cynta'r flwyddyn. Meddyliwch! Reit 'te, bant â ni ... daliwch yn dynn, bydd 2023 yn flwyddyn dda ... gobeithio.

Thema'r gwasanaeth ar fore Sul 8 Ionawr oedd 'Y Seren' a ninnau newydd ddathlu'r Ystwyll, sef y noson, yn ôl traddodiad, y daeth y doethion, wedi iddyn nhw ddilyn y seren, i blygu glin gerbron babi newydd-anedig oedd yn gorwedd mewn preseb di-nod ym Methlehem ac i roi anrhegion iddo: aur, thus a myrr. Rhyfedd, rhyfedd fod y dynion pwysig hyn, dynion dysgedig, wedi cael eu cymell i ddilyn seren oedd fry, fry yn yr awyr a theithio pellteroedd byd er mwyn gweld y sgrapyn bach o fywyd hwn yn gorwedd mewn gwair. Roedden nhw'n gwybod pethau, yn doedden nhw, ond ar y pryd, wydden nhw ddim beth yn *union* fyddai'n digwydd, beth fyddai hanes Iesu i gyd. Yn aml wy'n meddwl am beth oedd y gwŷr doeth yn meddwl wrth iddyn nhw glywed hanes Iesu yn ystod ei fywyd, achos roedden nhw yno ar y cychwyn cyntaf un.



Beth bynnag, 'nôl â ni at y seren a'n sêr bach ni fu'n cymryd rhan yn y gwasanaeth yn y Priordy.

Agorwyd y gwasanaeth gyda gweddi agoriadol 'Cyntaf gair a ddywedaf' o Lyfr Du Caerfyrddin a gair o groeso gan Beti-Wyn. Bwriwyd iddi yng nghyfeiliant hwyliog Band y Priordy i ganu'r emyn 'Jubilate' (Caneuon Ffydd 58) gydag afiaith. Yna cafwyd y cyhoeddiadau a'r casgliad. Y casglwyr y tro hwn oedd Iestyn, Nel, Beca, Sianco a Meredydd – diolch iddyn nhw am wneud eu gwaith mor dda.

Daeth Beca i'r pulpud wedyn i gyhoeddi'r emyn yn glir fel cloch, sef 'Emaniwel' (Caneuon Ffydd 417). Da iawn Beca. Yna dangosodd Beti-Wyn ffilm i ni o weithgareddau amrywiol yr ysgol Sul dros y flwyddyn aeth heibio, gan gynnwys pethau fel y gerddorfa iwceleles, disgo distaw, mynd am dro, peintio a chelf a chrefft, tyfu blodau o hadau, ymweld â chartref yr Erw Hir ac wrth gwrs y parti Nadolig ysblennydd! Sgwn i beth dydd i ddod yn ystod 2023?

Yn dilyn y ffilm daeth Nansi ac Anni i'r pulpud wedyn i sôn am y ffaith fod yna bobl fydd yn eu tywys nhw fel criw'r ysgol Sul drwy'r flwyddyn hon, a bod pobl yn tywys y plant ymhob agwedd o'u bywydau, o rieni i athrawon a hyd yn oed y fenyw lolipop wrth helpu plant ar draws y ffordd yn ddiogel. Mi oedd yna arweinwyr yn y Beibl hefyd, pobl fel Moses, Paul, ac wrth gwrs Iesu Grist ei hun. At Iesu yr arweiniodd y seren y doethion. Yna dangoswyd cartŵn o'r doethion yn dilyn y seren at Fethlehem. Arbennig Nansi ac Anni.

Arweiniodd Noa ni mewn gweddi yn diolch am ofal Duw drosom yn ystod y flwyddyn aeth heibio a diolch hefyd am yr holl bobl fu'n arwain ac yn gofalu amdanom. Diolch yn bennaf i Iesu Grist sy'n ein dysgu sut i fyw bywyd da. Gofynnodd Noa i ni weddïo dros bobl Wcráin ac Affganistan a mannau eraill ble mae rhyfel. Gofynnodd i ni hefyd feddwl am y rhai sy'n unig, yn ofnus a'r rhai sydd wedi colli anwyliaid. Gorffennwyd y weddi drwy fod pawb yn cydadrodd Gweddi'r Arglwydd. Gwych Noa.

I'r pulpud wedyn daeth Erin a'i mam, Non. Cyhoeddodd y ddwy yr emyn 'Dowch blant bychain' (Caneuon Ffydd 406) gyda'i gilydd, Non yn darllen ac Erin yn arwyddo mewn iaith Maketon. Am ardderchog Erin. Canwyd yr emyn i gyfeiliant swnllyd a llawen y Band Taro. Cawsom gyfle wedyn i ganu'r gân 'Tri Gŵr Doeth', gyda'r plant yn ein dysgu ni oedolion i'w chanu. Diolch blant.



Daeth Beti-Wyn i roi gair i'r plant gan ddangos afal iddyn nhw a'i dorri yn ei hanner ar ei letraws er mwyn dangos yr hadau y tu mewn ar siâp seren. Holodd Beti-Wyn i'r plant sawl seren sydd yn yr awyr, roedd rhai o'n cyw-gwyddonwyr ni'n meddwl eu bod yn gwybod yr ateb – yn wir yr ateb yw 200,000,000,000,000 (neu dau gan biliwn

triliwn mewn geiriau), anhygoel! Aeth Beti-Wyn ymlaen i sôn am un seren yn benodol sef y seren oedd yn fwy disglair nag unrhyw seren arall yn yr awyr adeg geni Iesu, yr un a arweiniodd y doethion at Iesu. Dywedodd Beti-Wyn, oes y mae seren y tu mewn i afal ond yn wir ei bod hi'n meddwl bod seren y tu mewn i bob un ohonom ni hefyd ac ein bod ninnau'n medru dangos y ffordd i bobl at Iesu. Ac mewn gwirionedd mae nifer o sêr o'n cwmpas ni i gyd yn ein bywydau ni, hynny yw pobl sydd wedi bod yn ein helpu ac sy'n dangos y ffordd i ni. Ar ddiwedd y sgwrs rhoddodd Beti-Wyn, gyda chymorth Erin, afal mawr iach i bob un o'r plant iddyn nhw gael mynd adre a chwilio am y seren yng nghrombil eu hafal (gyda chymorth oedolyn wrth gwrs).

Cawsom oll ganu'r emyn olaf sef 'A ddoi di i'm dilyn i' (Caneuon Ffydd 801) gyda'n gilydd cyn cyhoeddi'r fendith.

Am ffordd wych o gychwyn y flwyddyn. A pheidiwch ag anghofio, da chi, ein bod ni gyd yn seren i rywun ac y dylem geisio'n gorau glas i ddisgleirio a dangos y ffordd tuag at Iesu yn 2023. Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

## HEN SBECTOLAU



Byddwn yn casglu hen sbectolau ar gyfer
*Vision Aid Overseas*
yn ystod Suliau Chwefror

*Bydd blwch yn y cyntedd ar gyfer derbyn eich rhoddion*

*Diolch am eich cefnogaeth*

**GWASANAETH PASG CARTREF PLAS Y DDERWEN**
**Prynhawn Gwener – 31 Mawrth 2023 – 2 o'r gloch**
***gyda'n***
**Gweinidog**
***Croeso i bawb***



# CWIS Y SALMAU

**Pa mor dda ydych chi'n 'nabod y salmau? Yn hytrach, pa mor dda ydych chi'n 'nabod y salmau yn fersiwn beibl.net?!!!!**
**Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu!! Pob lwc!!**

## SALM 121

Dw i'n ----- - ---- i'r mynyddoedd.
O ble daw ---- i mi?
Daw help oddi wrth yr ARGLWYDD,
yr -- wnaeth greu y nefoedd a'r ddaear.

Fydd e ddim yn gadael i dy droed lithro;
dydy'r Un sy'n gofalu amdanat ddim yn cysgu.
Wrth gwrs! Dydy'r un sy'n ------ am Israel
ddim yn gorffwys na chysgu!
Yr ARGLWYDD sy'n gofalu amdanat ti;
mae'r ARGLWYDD wrth dy --- di
yn dy amddiffyn di.

Fydd yr haul ddim yn dy ---- di ganol dydd,
na'r lleuad yn ------- arnat ti yn y nos.
Bydd yr ARGLWYDD yn dy ------- di rhag pob ------;
bydd yn dy gadw di'n fyw.
Bydd yr ARGLWYDD yn dy gadw di'n ---
ble bynnag ei di,
o hyn allan ac am byth.

**Atebion ar Dudalen 12**

# CAPEL Y PRIORDY

# CINIO GŴYL DEWI



**Dydd Mercher 8 Mawrth 2022**
**12 ar gyfer 12.30**
**Clwb y Cwins Caerfyrddin**

**Pris: £8**

**Enwau**
**Beti-Wyn (beti.wyn@icloud.com)**
**neu**
**Ar yr Hysbysfwrdd yn y Cyntedd**

**Beth am droi at**
**Wefan yr Undeb?**
**www.annibynwyr.org**

**Y TYST**
**yn llawn newyddion da!**
**50c y rhifyn!**
**Cysyllter â Sulwyn Thomas**



# PLANT DEWI

***Grŵp Cefnogaeth Deoniaeth Caerfyrddin***

PLANT DEWI
Lle Mae Teuluoedd yn Bwysig
Where Families Matter

# BORE COFFI

## Neuadd Ddinesig San Pedr
## Dydd Sadwrn 18 Chwefror 2022 am 10

**Mynediad - £3**


**Llywyddion**
**Brian a Helen Jones, Castell Howell**

**Adloniant gan**
**Y Tannau Twrog**

**Pancws.. Stondinau Amrywiol.. Cacennau .. Raffl a Mwy**
**Chwarae meddal i blant**

**Tocynnau ar gael – ☎01558 668245**
***Croeso cynnes i bawb***

**Gwynn Bowyer…**



**D CADFAN JONES**
***Gweinidog Cyntaf Y Priordy***

Wedi clywed pregeth Beti-Wyn am forwyr cynnar Cristnogaeth ac fel y bu'r Eglwys Fore fel cwch a phob aelod ar y dec yn cludo'r newyddion da i bobman, cofiais fod gweinidog cyntaf y Priordy a sylfaenydd yr Achos wedi derbyn galwad o Ebeneser, Bangor, i Eglwys yr Annibynwyr yn Abergwili.



Derbyniodd fy nhad, Gwilym Bowyer, a oedd yn weinidog Capel y Boro yn Llundain adeg yr ail ryfel byd, alwad i Ebeneser Bangor, ar derfyn y rhyfel. Dyma'r unig gapel, hyd y gwn i, ble roedd arwydd pren dan y cloc yn wynebu pulpud y pregethwr gyda'r geiriau mewn aur – *Cofiwch y Morwyr.* Mae'n debyg mai **D Cadfan Jones** a'u gosododd. Gyda llaw, roedd yn ffasiwn y dyddiau hynny i roi 'v' Saesneg yn lle 'f' Cymraeg – ond stori arall yw honno!

Mae'n debyg fod Cadfan yn bregethwr a bugail diwyd yn ôl pob sôn. Un o'i ddyletswyddau ym Mangor oedd ymweld â'r llongau oedd yn hwylio o Harbwr Hirael Bangor i wledydd pell yn cario llechi Bethesda. Roedd yn cyfarfod â'r morwyr, rhai ohonynt yn aelodau, ac roedd croeso mawr i'r gweinidog gynnal gwasanaeth i'r morwyr cyn iddynt fentro dros y don.

Ymweld â Harbwr Hirael, mae'n debyg, achubodd fywyd Cadfan yn ddiweddarach yng Nghaerfyrddin! Mae'n bur debyg iddo ddal y pla gwyn yn ysgafn y pryd hwnnw a hynny cyn bod sôn am frechu.

Yn ôl yr hanes, roedd yr ardal o gwmpas hen waith Alcam Caerfyrddin,ble roedd *Jewson* tan yn ddiweddar, yn frith o dai gwael a phobl yn gweithio'n galed a'r mamau â llawer o blant, a nifer mawr o

deuluoedd yn rhannu'r un tŷ. Roedd medd-dod a chweryla a haint yn ymweld â’r ardal yn gyson. Os oedd angen plismyn i rwystro ymladd yna byddent yn mynd yno fesur pedwar o leiaf!  Roedd un peth yn sicr – byddai’r tlodi a’r budreddi’n gwahodd y pla a llawer yn marw.

Mae sôn fod clerigwyr y dref yn gwrthod mynd yn agos i’r ardal ond mentrai Cadfan Jones i mewn i’r tai i gladdu a chysuro’r gweiniaid yn ddi-ofn.  Roedd pawb yn rhyfeddu, at ei ddewrder a lledodd y gred fod Duw yn amddiffyn ei was.  Mae tystiolaeth ar gael fod yr heddlu, os oedd trwbl, yn gofyn i’r gweinidog fynd yno i dawelu’r dyrfa a byddai’n llwyddo.

Mae’n debyg i Cadfan Jones ddal ychydig o’r pla oddi wrth forwyr llongau Bangor ond nid oedd yn sylweddoli hynny ar y pryd. Yn sicr roedd hyn wedi achub ei fywyd wrth weithio yng nghanol yr haint yn ardal Y Priordy.

Cadfan Jones, mae’n debyg, a osododd yr arwydd yn Ebeneser Bangor. Nid bardd-bregethwr nac ychwaith emynydd mohono ond gŵr o ffydd ymarferol yn cefnogi pobl gyffredin. Un a syflaenodd eglwys fel cwch, nid yn unig i gario’r Efengyl ond i gydweithio i wasanaethu ardal a thrwy hynny Gymru fel gwlad. Cofiwch y morwyr!



| **CWIS Y SALMAU**<br>**beibl.net**<br>**ATEBION** | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | **edrych i fyny** | **6** | **lethu** |
| **2** | **help** | **7** | **effeithio** |
| **3** | **Un** | **8** | **amddiffyn** |
| **4** | **gofalu** | **9** | **perygl** |
| **5** | **ochr** | **10** | **saff** |
| **Gallwch hefyd droi at beibl.net** | | | |

# YMUNWCH YN Y DATHLU



Mae croeso i bawb ymuno yn nathliadau Wythnos Gŵyl Dewi Tref Caerfyrddin ac mae rhaglen lawn ar ein cyfer.



| | | |
|---|---|---|
| Nos Wener | 24 Chwefror | Cinio Gŵyl Dewi Cylch Cinio'r Dynion yng Nghlwb y Cwins |
| Dydd Sul | 26 Chwefror | Gwasanaeth Gŵyl Dewi Undebol<br>Oedfa Deulu yn y Priordy am 10<br>Oedfas Deulu Ddigidol am 11<br>Oedfa Gymun yn Elim am 5 |
| Dydd Mercher | 1 Mawrth | Ysgolion Ardal Caerfyrddin yn perfformio yn Y Clos Mawr yn y dref. |
| Nos Fercher | 1 Mawrth | Talwrn y Beirdd Gŵyl Dewi yn Yr Egin am 7.30 yng nghwmni'r Prifeirdd Tudur Dylan Jones a Mererid Hopwood gyda Thimau'r Ysgol Farddol, Y Priordy a Chwm Gwendraeth Dim tâl mynediad penodol ond casgliad at Apêl Ariannol Caerfyrddin ar gyfer Eisteddfod Yr Urdd Sir Gâr 2023. |
| Bore Sadwrn | 4 Mawrth | Pared Gŵyl Dewi am 11<br>O Eglwys San Pedr i Ganol y Dref<br>(Cwrdd am 10.45) |
| Nos Sadwrn | 4 Mawrth | Cawl a Chân yn Neuadd San Pedr am 7.30 |

Yn ystod Gwyliau Hanner Tymor sy'n arwain at Wythnos Gŵyl Dewi bydd y Fenter Iaith yn ogystal â Llyfrgell Y Dref yn trefnu gweithgareddau i blant a phobl ifanc



**PARCIO AM DDIM YM MEYSYDD PARCIO'R CYNGOR**
**AR DDYDD SADWRN 4 MAWRTH**



# ARWEINWYR Y PARÊD

# 2023



Sulwyn a Glenys Thomas fydd yn arwain Parêd Gŵyl Dewi Caerfyrddin eleni yng nghwmni Maer y Dref. Bu cyfraniad gwirfoddol y ddau i fywyd Caerfyrddin yn un sylweddol a nodedig iawn ar hyd y blynyddoedd, a bydd hyn yn gyfle i ni ddangos ein gwerthfawrogiad o'u gwasanaeth diflino.

Fel y gwyddom yn dda, mae'r ddau yn aelodau gweithgar iawn yma yn y Priordy ac yn parhau i gynnal a hyrwyddo pob math o achosion da yn ein tref a thu hwnt a hynny'n gwbl wirfoddol.

Bydd Band Chwyth Symffonig Caerfyrddin yn yn arwain y Parêd a disgyblion Ysgol Bro Myrddin yn cario Baner Fawr y Sir. Ar Sgwâr y Clos Mawr ceir eitemau cerddorol gyda Band a Chôr Seingar yn uno i arwain y dorf i ganu 'Yma o Hyd'.

Gwahoddir unigolion, ysgolion a mudiadau i ymuno yn Y Parêd ac i ddod â'u harwyddion a'u baneri gyda nhw.


Diolch i Faer ein Tref, Miriam Moules, am ei llythyr yn gwahodd ein heglwys i ymuno â'r Pared.


**Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio**
*yn cyflwyno...*

# NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

## Oedfa Weddi Dechrau'r Flwyddyn

Am y tro cyntaf yn hanes yr eglwysi cynhaliwyd yr oedfa yng nghanolfan y Pentecostiaid.




## Hafan

Wedi seibiant dros Nadolig ailgychwynnwyd Hafan

***Cwmni***
***Paned***
***Gweddi***
***Croeso***

## Yr Wythnos Weddi am Undebol Gristnogol




Ni lwyddwyd i gael pob cynulleidfa yn y dre i gydaddoli yn yr un adeilad eleni eto!

Parhawn i obeithio! Daeth y rhai oedd yn dymuno hynny a dyna sy'n bwysig, dyna sy'n dangos ysbryd yr wythnos.

**Peter Hughes Griffiths….**



## DARLITHIAU'R LLYFRGELL GENEDLAETHOL

Pleser oedd cael ymuno â Zoom am gyfres o bedair darlith a drefnwyd gan ein Llyfrgell Genedlaethol i ddathlu pedwar canmlwyddiant geni Stephen Hughes, Apostol Sir Gâr. Bydd darllenwyr *Papur Priordy* eisoes wedi cael cyfle i ddarllen hanes y gŵr arbennig hwnnw mewn rhifyn blaenorol [Ionawr 2022], ond yn ogystal â'r ddarlith ar Stephen Hughes gan y **Dr D Densil Morgan**, fe gafwyd darlithoedd eraill gan y Dr Geraint H Jenkins ar Griffith Jones, Llanddowror, gan y Dr Eryn White ar Madam Bevan, a gan y Dr John Aaron ar Thomas Charles - y rhain i gyd yn bobl Sir Gaerfyrddin - gan nodi eu cyfraniad arbennig iawn i fywyd Cymru.



Ganwyd **Stephen Hughes** yn nhref Caerfyrddin yn 1622 a bu ei dad a'i frawd yn Feiri'r dref. Diswyddwyd ef ar ôl bod yn offeiriad bywoliaeth Merthyr a Meidrim a datblygodd i fod yn bregethwr enwog yng nghyfnod twf y cynulleidfaoedd crefyddol Piwritanaidd, a disgrifiwyd ei bregethu fel "*mêl yr efengyl ar ei dafod.*" Cysylltir ef wrth gwrs â hanes ei bregethu yn Ogof Cwmwplin ger Pencader. Ond, ei ddylanwad mwyaf oedd ei gyfraniad i hyrwyddo llenyddiaeth ar gyfer y werin dlawd, a'i ymgyrch fawr i roi llyfrau i'r werin, fel *'Canwyll y Cymry'* o waith Y Ficer Prichard, Llanymddyfri. Aeth ati i lunio llyfrau crefyddol wedyn i helpu'r werin i ddysgu darllen Cymraeg, ac yn arbennig yn Sir Gaerfyrddin, a dyna pam y galwyd ef yn 'Apostol Sir Gâr'. Trefnodd i'r Ymddiriedolaeth Gymreig argraffu 8,000 o Feiblau Cymraeg ym 1678 a chasglu digon o arian er mwyn sicrhau bod 1000 o'r rheiny am ddim ar gyfer y tlodion. Bu farw ym 1688 yn 66 oed.



Mae dawn y **Dr Geraint H Jenkins** fel darlithydd i'w hedmygu, a'i ddawn i gyfleu gwybodaeth yn ddiddorol bob amser mor dderbyniol. Llwyddodd i roi darlun llawn i ni o fywyd **Griffith Jones** y gŵr a sefydlodd gannoedd o ysgolion cylchynol ac a

ddysgodd filoedd ar filoedd o Gymry i ddarllen yn yr iaith Gymraeg mewn cyfnod di-addysg yn achos y werin dlawd. Ganwyd Griffith Jones ym Mhantyrefail ym mhlwyf Penboyr, Sir Gaerfyrddin ym 1683 ac fe ddaeth yn enwog fel Griffith Jones, Llanddowror gan mai yno y bu'n offeiriad am gyfnod hir yn ystod ei fywyd.


Ym 1731 dechreuodd sefydlu ei ysgolion cylchynol enwog trwy addysgu pobl mewn un ardal am ryw dri mis cyn symud ymlaen i ardal arall. Dysgai'r ysgolion blant ac oedolion i ddarllen trwy astudio'r Beibl Cymraeg. Erbyn iddo farw ym 1761 roedd 3,495 o ysgolion wedi eu sefydlu mewn 1,600 o lefydd, a Chymru ymysg gwledydd mwyaf llythrennog y byd. Mae'n werth nodi na fu unrhyw fath o gyfundrefn addysg Gymraeg yng Nghymru cyn hynny ers diddymu'r mynachlogydd.



**Dr Eryn M White** gyflwynodd y ddarlith ar **Madam Bridget Bevan (1698 – 1779)** a fu'n allweddol i ymgyrch fawr Griffith Jones i addysgu'r werin. Merch John Vaughan, Derllys Court, Llannewydd, ger Caerfyrddin oedd hi, ac wedi etifeddu cryn gyfoeth o rwydwaith o deuluoedd cyfoethog. Roedden nhw'n addoli yn eglwysi Llanllwch a Merthyr. Ei gŵr oedd Arthur Bevan, Aelod Seneddol dros dref Caerfyrddin. Pan fu gwraig Griffith Jones farw ym 1755 aeth Griffith i fyw at Madam Bevan yn ei thŷ moethus yn Nhalacharn. Bu'n cydweithio â Griffith Jones gan barhau gyda'r gwaith o sefydlu mwy o ysgolion ar ôl iddo farw. Heb os, fe ddefnyddiodd ei chyfoeth i hyrwyddo'r gwaith pwysig hwn. Nid oedd tystiolaeth ei bod yn medru'r Gymraeg ac mai Saesneg oedd yr ohebiaeth rhyngddi hi a Griffith Jones. Fe'i claddwyd yn Eglwys Llanddowror yn yr un bedd â Griffith Jones a'i wraig ac nid gyda'i gŵr yn Nhalacharn. Roedd ei chyfraniad yn un nodedig iawn ac yn deilwng o fod yn un o arwyr ein gorffennol, yn ôl y Dr Eryn White.



**Thomas Charles o'r Bala (1755 – 1814)** oedd testun darlith y Dr John Aaron. Nododd fod Thomas Charles wedi ei eni a'i fagu yn Longmoor ym mhlwyf Llanfihangel Abercywyn ger Sanclêr. Ei genhadaeth fawr yntau hefyd oedd dysgu'r Cymry i ddarllen a cheisio parhau gyda gwaith Griffith Jones. Dyma a wnaeth trwy ei oes, a hyrwyddo gair Duw gan ganoli ar y Beibl Cymraeg. Sefydlodd yntau nifer dda o ysgolion a'u cadw yn yr un lle am ryw naw mis. Yna, fe ganolbwyntiodd ar gynnal yr ysgolion hyn ar y Sul. Bu hynny yn llwyddiant mawr trwy greu lefelau o ddysgu gan ddechrau gyda dysgu'r wyddor Gymraeg a datblygu i'r chweched lefel o fedru darllen y Beibl. Roedd y merched a'r bechgyn ar wahân a dim mwy na deuddeg ym mhob dosbarth. Datblygodd yr arferiad o bobl yn dysgu rhannau o'r Ysgrythur ar eu cof ac ym 1799 cyhoeddodd y cylchgrawn cyntaf yn y Gymraeg 'Trysorfa Ysbrydol'.   Brawd iddo oedd David Charles yr emynydd ac awdur '*Rhagluniaeth fawr y Nef...*'




Ond, cyfraniad mwyaf oll Thomas Charles yn ôl y Dr Aaron oedd darparu Beiblau Cymraeg trwy'r Gymdeithas Feiblaidd, ac erbyn 1900 bu 351 o argraffiadau o'r Beibl Cymraeg. Yn ôl rhai, fe oedd '*Addysgwr mwyaf Cymru.'*

Diolch i Lyfrgell Genedlaethol Cymru am drefnu'r darlithiau hynod o ddiddorol hyn a roddodd ddarlun i ni o bwysigrwydd pedwar person nodedig yn hanes Sir Gaerfyrddin a aeth ati i ddysgu'r werin bobl mewn cyfnodau o dlodi mawr. Bu eu llwyddiant yn rhyfeddol a mawr yw ein diolch ninnau iddyn nhw am eu gwasanaeth enfawr yn hyrwyddo dysg yn ein gwlad.



**THEMA'R CWRDD AR SUL OLAF IONAWR OEDD CARIAD A BU'R PLANT YN DILYN YR UN TRYWYDD YN YR YSGOL SUL**















# Ifanc@Priordy

Helo bawb! Wel, mae'n braf bod nôl mewn trefn ar ôl y Nadolig. Mae'r Ysgol Sul wedi ail-gychwyn ac fe fydd PIP yn cwrdd cyn bo hir. Mae 'na bethau gwych wedi eu trefnu ar gyfer yr Ysgol Sul o nawr tan yr haf. Cadwch lygaid ar y calendr.



Gŵyl Dewi

Byddwn yn dathlu Gŵyl Dewi eleni yn Y Priordy gyda chapeli ac eglwysi eraill y dref yn ymuno â ni ar fore Sul, 26 Chwefror am 10. Gobeithio y cawn eich cwmni!



Cân Gŵyl Dewi

Rwy wedi anfon cân Gŵyl Dewi mas atoch i gyd – y geiriau, y gerddoriaeth a recordiad o'r gerddoriaeth i chi gael mynd drostynt cyn yr oedfa. Cofiwch wisgo eich gwisgoedd traddodiadol!

Parêd

Cofiwch y bydd Y Priordy yn ymuno yn y Parêd drwy'r dref ar ddydd Sadwrn, 4 Mawrth. Bydd baner y Priordy yn rhan o'r orymdaith!

## Calendr yr Ysgol Sul



Chwefror 5 – Ysgol Sul
Chwefror 12 – Sul y Greadigaeth – bydd yr Ysgol Sul a PIP yn gadael y festri y bore hwn. Dewch i gael gweld!
Chwefror 19 – Dim Ysgol Sul – Hanner Tymor
Chwefror 26 – Gwasanaeth Gŵyl Dewi yn y Y Priordy am 10
Mawrth 5 – Ysgol Sul

## Calendr PIP

Chwefror 5 – PIP yn cwrdd
Chwefror 12 - Sul y Greadigaeth – bydd yr Ysgol Sul a PIP yn gadael y festri y bore hwn. Dewch i gael gweld!
Chwefror 19 – Dim PIP. Hanner Tymor
Chwefror 26 – PIP i ymuno yn y Gwasanaeth Gŵyl Dewi
Mawrth 5 – PIP yn cwrdd


Dyddiad i'w nodi – Sul, 7 Mai – ymweld â Chartref Erw Hir.

# Chwilotair Llythyren 'H'

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| F | N | H | E | R | O | D | H | A | I | N | T | U | U |
| H | E | D | D | W | C | H | H | O | S | E | A | D | J |
| H | M | H | E | S | E | C | E | I | A | C | P | O | Y |
| U | A | K | P | V | N | K | F | L | H | O | L | I | H |
| X | H | N | H | Y | N | A | F | I | A | I | D | S | E |
| R | A | V | N | H | A | L | E | L | I | W | I | A | B |
| V | B | X | P | A | Q | C | Q | S | H | A | J | N | R |
| E | A | H | Y | B | A | O | H | H | H | A | N | F | E |
| P | C | A | H | H | H | B | E | H | E | E | U | X | A |
| V | U | G | E | I | A | K | S | Z | O | R | U | L | I |
| K | C | G | B | L | L | K | R | H | Q | S | I | W | D |
| Q | T | A | R | B | E | I | O | P | B | N | A | O | R |
| Q | H | I | O | R | N | N | N | H | E | D | Y | N | O |
| Y | M | Q | N | O | D | F | R | P | C | J | I | O | A |

HANNA
HALELIWIA
HESECEIA
HYNAFIAID
HEBRON
HOSEA
HALEN
HERIO
HAUL
HEROD
HEUWR
HAINT
HEBREAID
HOSANA
HEDYN

Dydd Mawrth, 21 Chwefror – Diwrnod Pancos!
Fedrwch chi fy helpu i ddod o hyd i'r bancosen?!



Cofiwch ddilyn holl ddigwyddiadau'r Priordy ar:
Facebook Capel Y Priordy
Trydar @CapelYPriordy
Gwefan www.priordy.org
Youtube: Gofalaeth Y Priordy, Cana a Bancyfelin

**Tan y tro nesaf,**
**Hwyl fawr**
*Beti-Wyn*

**Ifanc@Priordy**

**CWRDD PLANT IONAWR**

***Gweler Adroddiad Elinor Wyn Reynolds***







# Te P’nawn Sul yr Ofalaeth

***UN*** sy’n gwybod yn iawn sut i ddiddanu cynulleidfa yw Peter Hughes Griffiths.  Mae’n feistr ar y grefft. Nid yn unig ychwaith y mae’r ddawn ganddo i’n diddanu ond hefyd i’n diwyllio a’n haddysgu ar yr un pryd. Dyna oedd profiad pob un ohonom a ddaeth i’r Te P’nawn a gynhaliwyd yng Ngwesty’r Llwyn Iorwg ar Sul olaf y mis.



Y merched yn ei fywyd oedd testun Peter a bu cryn ddyfalu dros yr wythnosau diwethaf pwy fyddai’n sôn amdanynt! Roedd stôr ohonynt ganddo a buan iawn y cipiodd ein sylw a’n dychymyg wrth iddo’u trafod yn ei ffordd ddihafal ei hun. Roedd rhai ohonynt yn wragedd adnabyddus, eraill yn llai felly ond yr un mor bwysig yn ei fywyd.

Dechreuodd yn ei bentref genedigol a chlywsom am ddylanwad ei fam a gwragedd yn yr ysgol, y capel a’r gymuned leol – pob un wedi chwarae rhan bwysig yn mowldio’i gymeriad. Nid cymuned ddihiwmor oedd hon ychwaith a bu llond bol o chwerthin braf wrth glywed am dro trwstan ei fam, Mrs Griffiths y Cook a llwyrymwrthodwraig, yn gollwng drwy ddamwain y botel stowt a brynwyd i bwrpas coginio yn Nhafarn John y Gwas, wrth ysgwyd llaw â’i pharchus weinidog, Y Parchedig Gwilym Rees!

Un o’r gwragedd a fu’n ddylanwad mawr ar Peter yn nyddiau ieuenctid oedd Jeni Eirian o Lanpumsaint, y fenyw gyntaf i ymgeisio dros Blaid Cymru yn Sir Gâr a’r un a flaenarodd y tir ar gyfer buddugoliaeth Gwynfor Evans yn ddiweddarach. Bu hithau’n symbyliad i Peter nid yn unig i ymddiddori ym mywyd gwleidyddol Cymru ond hefyd i symud ymlaen i chwarae rhan bwysig ynddo dros y blynyddoedd.

Roedd hi’n amlwg fod gan Peter barch aruthrol at Nora Isaac a fu’n Brif Ddarlithydd Drama a'r Gymraeg yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin ble roedd yn fyfyriwr.  Diddorol oedd deall sut y byddai

Nora'n rhoi pwyslais ar gael ei myfyrwyr i lefaru'n effeithiol. Does dim angen dweud y bu Peter yng nghanol bwrlwm y dramâu a'r cyflwyniadau ac yn y blaen a drefnwyd gan Nora. Ac wrth i Peter adrodd am gyflwyniad pasiant Griffith Jones pwy allai anghofio'r stori ddigri am Nora a'r Archesgob George Noakes yn cerdded i mewn i'r Transport Caffi a'r waliau'n llawn o luniau amheus! Gallech hefyd synhwyro'r balchder yn llais Peter pan ddywedodd ar ddiwedd ei sgwrs iddo ganfod fod perthynas drwy waed rhwng ei deulu yntau a theulu Nora!

Wrth ddechrau addysgu yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth wedyn clywsom fel y chwaraeodd ambell arolygydd ysgol ran bwysig yn ei fywyd, fel Margaret Jenkins â'i siglad llaw cadarn a Cassie Davies o Dregaron, un a fu'n gymaint o 'hwb i'w bro a'i gwlad'. Yn addysgu ar y pryd â Peter yn yr Ysgol Gymraeg roedd ein Nansi Hayes ni a chafodd y ddau ohonynt ac eraill hwyl yn sefydlu'r Parti Noson Lawen, Doniau'r Dosbarth! Yn nhref Aberystwyth ei hunan llwyddodd Lili Thomas i'w berswadio i sefyll dros Blaid Cymru ar Gyngor y Dref. Er na fu llwyddiant y tro hwnnw, mae'n amlwg i'r profiad godi blas arno a hynny'n talu ar ei ganfed maes o law!

Go brin, fodd bynnag, y bu gwraig bwysicach ym mywyd Peter na Meinir a'r bartneriaeth rhyngddynt wedi cyfrannu cymaint i fywyd ein tref a'n gwlad. Mae'n dyled yn fawr iddynt.

Do, daeth Peter ar draws merched arbennig iawn ar daith bywyd ac mae hynny'n parhau hyd heddiw. Cyfeiriodd yn haeddiannol iawn at ddylanwad Beti-Wyn ar fywyd crefyddol a chymunedol cymaint ohonon ni - rhywbeth y gallwn ni oll ymfalchïo ynddo'n fawr.

***CAWSOM*** flasu te gyda'n gilydd ar ddechrau'r prynhawn - criw da ohonom o gwmpas pedair ford gron, yn cynnwys Y Parchedig Hywel Mudd sydd bellach yn byw yn ein tref. Cawsom hefyd gyfle i gyfarch un o ferched y Priordy, Eira Phillips, sy'n dathlu pen-blwydd arbennig Cyflwynodd Sulwyn Thomas y diolchiadau'n ddeheuig iawn. Diolchodd i Beti-Wyn am yr holl drefniadau ac am gyflwyno'r gras bwyd, i Westy'r Llwyn Iorwg ac, wrth gwrs, i'n siaradwr gwadd. Dywedodd yn gwbl briodol ein bod nid yn unig wedi mwynhau te ond hefyd wledd yng nghwmni Peter y prynhawn hwnnw!

## YN MWYNHAU TE P'NAWN SUL

















**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**

**Nos Fercher 8 Chwefror 2023 am 7.30**
**yn y Festri**
**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda**

**CWRDD DIACONIAID A BAENORIAID AC YMDDIRIEDOLWYR YR OFALAETH**
**Nos Fercher 22 Mawrth 2023 am 7**
**yn y Priordy**

**SWYDDOG DIOGELWCH NEWYDD Y PRIORDY**



**Ein swyddog newydd yw Luned Voyle Thomas. Diolch iddi am ymgymryd â'r swydd a phob dymuniad da iddi wrth y gwaith.**

Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr Iolo mewn cydweithrediad â Pontio
yn cyflwyno




**PIJIN / PIGEON**

Dydd Mawrth / Mercher 14/15 Mawrth 2023 - 7.30
Ffwrnes, Llanelli

*Yn seiliedig ar y nofel lwyddiannus 'Pigeon' gan Alys Conran ac wedi'i haddasu i'r llwyfan gan Bethan Marlow. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cyd-blethu, a phob perfformiad yn cynnwys capsiynau Cymraeg a Saesneg. Canllaw Oedran: 13+ (Yn cynnwys iaith gref a themâu o drais yn y cartref)*

## COFIO PETER WILLIAMS (1723-96)

***AR*** brynhawn Sul, 8 Ionawr 2023, cynhaliwyd gwasanaeth i goffáu trichanmlwyddiant geni'r **Parchedig Peter Wiilliams** yn Eglwys Sant Maelog, Llandyfaelog. Roedd yr eglwys yn gyfforddus lawn gyda nifer o ddisgynyddion Peter Williams yn bresennol.



Cafwyd araith feistrolgar gan **Eurig Davies**, **Cadeirydd Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Gâr**, ar fywyd a gwaith Peter Williams a phregeth bwrpasol i'r achlysur gan **y Parchedig Dorrien Davies, Archddiacon Caerfyrddin.** I ddiweddu'r gwasanaeth aethom i'r fynwent i gydganu *Guide me, O thou great Jehofa* yn yr awyr agored ar lan ei fedd. Cafwyd cyfle i gymdeithasu wedyn uwchben paned a theisen yn Neuadd y Pentref.





Ganwyd Peter Williams ar 15 Ionawr 1723, yn West Marsh, Llansadyrnin, Sir Gaerfyrddin. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg Caerfyrddin, ac yno yn y dref ar stryd Heol Awst ym 1743 y cafodd dröedigaeth dan ddylanwad pregethu George Whitfield.  Mae'n ddiddorol nodi bod Whitfield yn sôn yn ei ddyddiadur am Gaerfyrddin '*fel un o'r mannau pwysicaf a chyda'r mwyaf cwrtais yng Nghymru'!*

Bu Peter Williams yn athro am dymor byr yng Nghynwyl Elfed. Cafodd ei ordeinio'n ddiacon ym 1745, a bu'n gurad yn Eglwys Gymyn ger Arberth, Abertawe, Llangrannog, a Llandysiliogogo. Bu mewn helbul yn ei blwyfi oherwydd ei Fethodistiaeth, a gwrthododd yr esgob ei ordeinio'n offeiriad.

Ymunodd â'r Methodistiaid ym 1747, a dechreuodd deithio'r wlad i bregethu - rhywbeth a wnaeth weddill ei fywyd. Priododd â Mary Jenkins o Lanlluan ym 1748, a chyn hir ymsefydlodd yn y Gelli

Lednais, Llandyfaelog. Bu farw yno 8 Awst 1796. Meibion iddo oedd Eliezer a Peter Bailey Williams.

Roedd Peter Williams yn un o brif arweinwyr y mudiad Methodistaidd yng Nghymru a hefyd yn llenor a bardd. Roedd ymhlith y Methodistiaid Cymreig cyntaf i werthfawrogi’r posibilrwydd o ddefnyddio’r argraffwasg fel modd i ledaenu neges y Methodistiaid. Cyhoeddodd yn helaeth.




Ei brif waith oedd argraffiad o’r Beibl gyda nodiadau a gyhoeddwyd yng Nghaerfyrddin gan John Ross ym 1770. Hwn oedd yr argraffiad cyntaf o’r Beibl i’w argraffu, gyda nodiadau, yng Nghymru. Bu ‘Beibl Peter Williams’ yn boblogaidd yn ein gwlad am sawl cenhedlaeth a chyhoeddwyd miloedd o gopïau ohono dros y blynyddoedd.

Cyhoeddodd hefyd y ‘Mynegeir Ysgrythurol’ (1773) ac argraffiad poced o’r Beibl (1790), yn cynnwys nodiadau gan John Canne. Ar ôl cyhoeddi’r Beibl bychan cafodd ei gyhuddo o goleddu Sabeliaeth ar gyfrif rhai o’i esboniadau. Sabeliaeth yw'r gred fod y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân yn dair nodwedd wahanol o Dduw, yn hytrach na thri pherson gwahanol wedi eu huno yn y Duwdod. Cafodd Peter Williams ei ddiarddel o ganlyniad gan y Methodistiaid.



Yma yng Nghaerfyrddin ar dir Peter Williams y codwyd capel cyntaf Heol Dŵr ym 1771. I bob pwrpas bu’n gapel preifat iddo hyd ei farwolaeth. Ym 1797, gwerthodd ei weddw’r capel i seiat y Methodistiaid.

Dyfynnwyd pennill o un o emynau Peter Williams sydd yn ei gyfrol

*Blodau i Blant,* ar dudalen blaen ein Papur ond pennill arall a briodolir iddo sy'n dwyn ein bryd ni heddiw!



Ymddangosodd *Guide me O thou great Jehova,* sy'n seiliedig ar emyn William Williams Pantycelyn, *Arglwydd arwain drwy'r anialwch* (Caneuon Ffydd 702), yn ei gasgliad o emynau Saesneg, *Hymns on Various Subjects* ym 1771.

Y tebygrwydd yw bod Pantycelyn wedi mabwysiadu pennill cyntaf fersiwn Peter Williams yn ei grynswth wrth lunio'i fersiwn Saesneg yntau o'r emyn (*Caneuon Ffydd (948)*.


***I ORFFEN*** felly, dyma ddyfynnu'r pennill poblogaidd hwnnw yn y naill iaith a'r llall - pennill a fyddai'n cael ei forio ar gaeau rygbi ac mewn tafarndai ar un adeg yn ogystal ag mewn capeli ac eglwysi:

| | |
|---|---|
| **Arglwydd arwain drwy'r anialwch<br>fi, bererin gwael ei wedd<br>nad oes ynof nerth na bywyd,<br>fel yn gorwedd yn y bedd:<br>hollalluog<br>ydyw'r Un a'm cwyd i'r lan.** | **Guide me, O thou great Jehovah,<br>pilgrim through this barren land,<br>I am weak, but thou art mighty,<br>hold me with thy powerful hand:<br>bread of heaven,<br>feed me now and evermore.** |

*Diolch i'r Athro E Wyn James am ei gymorth gyda rhannau o'r erthygl hon a hefyd i Geraint Roberts am rai o'r lluniau.*


***COFIWCH BARHAU I GADW STAMPIAU A CHETRYS***





# COFIO RICHARD PRICE

**1723-1791**



**Gweinidog Ymneilltuol, Athronydd a Chyfrifydd Yswiriant**

***FE'I*** ganed 23 Chwefror 1723, sef tri chan mlynedd yn ôl i'r mis hwn, yn fab i Rees Price, gweinidog Anghydffurfiol, athro, a gŵr bonheddig, a'i wraig Catherine, yn ffermdy Tyn-ton, ger Llangeinwyr, heb fod yn bell iawn o Benybont ar Ogwr ym Morgannwg. Cyfnither iddo oedd Ann Thomas, y Ferch o Gefn Ydfa.

Derbyniodd e addysg gynnar ar yr aelwyd a Chastell-nedd ac yna ym Mhen-twyn, Llannon, Sir Gaerfyrddin gyda Samuel Jones, gweinidog Annibynnol ac athro ysgol, a Chancefield ger Talgarth gyda Vavasor Griffiths, gweiniog ac athro gyda'r Annibynwyr.

O ddyddiau cynnar, mae'n debyg i Richard fabwysiadu daliadau crefyddol go wahanol i rai ei dad, gan gael ei ddenu at safbwyntiau Cristnogol mwy rhyddfrydol.

Ar ôl colli'i rieni symudodd i Lundain at ei ewythr, Samuel Price, brawd ieuengaf ei dad a chyfaill i Isaac Watts. Erbyn hyn roedd ei fryd ar y weinidogaeth. Ymunodd ag Academi'r Ymneilltuwyr yn Tentern Alley, Moorfields, Llundain ble bu'n astudio dan John Eames, tiwtor Ymneilltuol. Roedd yr Academi'n cynnig maes llafur eang ac mae'n debyg i Price gael blas arbennig ar fathemateg ac roedd ei ddiddordebau gwyddonol yn eang.

Dechreuodd ei weinidogaeth yn gaplan teuluol i George Streadfield yn Stoke Newington. Byddai hefyd yn gweinidogaethu o bryd i'w gilydd i wahanol gynulleidfaoedd. Pan fu farw Streadfield a hefyd ewythr iddo daeth i etifeddiaeth sylweddol. Priododd Sarah Blundell, yn wreiddiol o Belgrave yn Swydd Caerlŷr. Symudodd y pâr i Newington Green, pentref bach ger Hackney. Bu'n gwasanaethu mewn tai cwrdd yn

Llundain a'r cylch am weddill ei fywyd, gan amlaf yn Newington Green a Thŷ Cwrdd Gravel Pit yn Hackney.

Pan oedd yn 35 oed cyhoeddodd *Review of the Principal Questions and Difficulties in Morals* (1758) sy'n cael ei ystyried yn gyfraniad safonol i athroniaeth ar y pryd.

Daeth i gysylltiad agos â rhai o wyddonwyr enwocaf Prydain ac ym 1765 cafodd ei ethol yn Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol, sef cymdeithas i hyrwyddo ymchwil wyddonol o bob math, yn bennaf o ganlyniad i'w waith golygyddol ar ysgrif enwog Thomas Bayes, gweinidog a mathemategydd, ar theori tebygolrwydd. Ffordd o fesur siawns yw tebygolrwydd sy'n dweud wrthyn ni pa mor debygol yw hi y bydd rhywbeth yn digwydd. Cymhwysodd Price hyn i fyd yswiriant, er enghraifft, drwy gyfrifo pa mor debygol yw hi i berson fyw i ryw oed arbennig, yn ddibynnol ar ei waith ac ati. Fe felly a sylfaenodd egwyddorion yswiriant ac actiwariaeth. Daeth yn gynghorydd i'r cwmni newydd *Equitable Assurance Society* ar faterion cyfrifyddol a demograffaidd. Gwnaeth hyn am 15 mlynedd yn gwbl ddi-dâl. Tyfodd yn adnabyddus yn Llundain fel awdurdod ar faterion ariannol a pholiticaidd.


Ym 1771 rhoddodd drefn wyddonol ar yswiriant bywydau gyda'i *Observations on Reversionary Payments* a'i daflenni ystadegol. Ym 1772 yn *Appeal to the Public* tynnodd sylw at y Ddyled Genedlaethol a oedd ar y pryd yn bygwth methdaliad cenedlaethol. Cafodd ei ddadleuon ddylanwad ar bolisïau William Pitt, yn arbennig ar basio Deddf y Gronfa Ad-dalu ym 1786.

Cyfraniad pwysig arall ganddo oedd *Observations on the Nature of Civil Liberty* ym 1776, ynghyd â phamffledi eraill, ble mae'n egluro'r rhesymau dros ddiwygio'r Senedd ac yn dadlau'n huawdl dros ryddid ac o blaid y gwrthryfelwyr yn Rhyfel America. Dylanwadodd yn fawr ar feddyliau'i gyfoeswyr yn Lloegr ac yn America. Cafodd ryddfraint Dinas Llundain ym 1776 am ei waith yn hyrwyddo creu'r Unol Daleithiau. Ym 1781, ynghyd â George Washington, derbyniodd radd anrhydeddus gan Brifysgol Yale. Cafodd wahoddiad gan Gyngres y Taleithiau, trwy ei gyfaill Benjamin Franklin, i dderbyn dinasyddiaeth y wlad newydd ac i'w cynorthwyo i lunio cyfundrefn ariannol ond gwrthododd y cynnig.

Parhaodd i ymddiddori'n fawr mewn materion Americanaidd. Cyn i'r Taleithiau ffurfio eu cyfansoddiad (1787) cyhoeddodd Price ei bamffledyn yn rhoddi cynghorion - *Importance of the American Revolution* (1784) ble mae'n dadlau dros egwyddor ffederaliaeth a chafodd y cyhoeddiad gryn ddylanwad.

Mae Price yn cael ei gofio hefyd am *A Discourse on the Love of our Country* (1789), pregeth a gyhoeddwyd ble mae'n amlygu'i frwdfrydedd dros ddechreuad y Chwyldro yn Ffrainc. Fe oedd y cyntaf i fynegi barn yn gyhoeddus am y Chwyldro. Mewn ymateb i'r bregeth hon y cyhoeddodd Edmund Burke ei *Reflections on the French Revolution.* Roedd gan y Ffrancod barch mawr i Price am ei gydymdeimlad ac am iddo fynegi egwyddorion sylfaenol y Chwyldro. Ei gredo oedd y dylai pawb garu eu gwlad ond heb anghofio eu bod hefyd yn ddinasyddion o'r byd.

Bu Richard Price farw yn ei gartref ym 1791, bum mlynedd ar ôl iddo golli'i wraig. Ychydig cyn hynny y sefydlwyd y Gymdeithas Undodaidd a daeth yn un o'r aelodau cyntaf. Fe'i claddwyd ym Mynwent Bunhill Fields, man claddu Anghydffurfiol yn Llundain.




***ROEDD*** Price yn ŵr disglair, amryddawn ac eang ei ddiddordebau a phoblogaidd yn ei ddydd. Fel pregethwr gyda'r Undodiaid, rhoddodd fynegiant i'w syniadau radicalaidd, gan ennill tipyn o sylw. Byddai llawer yn dod i wrando arno'n pregethu. Roedd rhai o'i syniadau'n hynod o ddadleuol ac ychydig o sôn a fu amdano ar ôl ei farw, gan iddo, mae'n debyg, ochri gyda'r Chwyldro Ffrengig. Mae Price yn destun sylw yn *Cyfri'n Cewri,* sef *Hanes Mawrion ein Mathemateg* gan Gareth Ffowc Roberts [tad ein Llinos Roberts ni], cyfrol a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru ym 2020 sy'n werth troi ati am hanes mwy cyflawn y gŵr rhyfeddol hwn. Ac mae'n briodol i ninnau gofio Richard Price y mis hwn, ar achlysur trichanmlwyddiant ei eni. Ym marn neb llai na'r hanesydd John Davies, fe yw'r meddyliwr mwyaf gwreiddiol a fagodd Cymru erioed.

## SUT I WYLIO OEDFA DDIGIDIOL Y PRIORDY

Gallwch wylio'r oedfa ddigidiol bob Sul
drwy:

| | |
|---|---|
| **1** | Ymweld â thudalen Facebook Capel Y Priordy a phwyso ar ddolen yr oedfa |
| **2** | Ymweld â chyfri Trydar @CapelYPriordy a phwyso ar ddolen yr oedfa |
| **3** | Ymweld â gwefan Capel Y Priordy- www.priory.org – pwyso ar y geiriau 'Oedfa Digidiol' yng nghornel dde uchaf y dudalen a chael mynediad i'r oedfa |
| **4** | Dilyn y ddolen (pwyso ar y ddolen) sy'n dod drwy e-bost at yr aelodau bob nos Sadwrn gan ein Gweinidog |

Os oes unrhyw un yn cael trafferth i ddeall y cyfarwyddiadau hyn,
yna rhowch wybod i'n Gweinidog, os gwelwch yn dda,
ac fe gewch esboniad pellach

**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**





***YN DYMUNO CYFAMODI?***

**DENNIS JONES**
**YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**

**Croeso i chi gysylltu ag e!**

**Theatr Bara Caws**
**yn cyflwyno**

**CARIAD YN OES Y GIN**

**Neuadd San Pedr Caerfyrddin**
**Dydd Sadwrn 11 Mawrth 2023 – 7.30**

**Trefnydd- Menter Gorllewin Sir Gâr**
**☎07939 962 042 betsan@mgsg.cymru**

**Comedi dywyll am brofiadau pâr ifanc bohemaidd a gwrthryfelgar wrth iddynt geisio bywyd newydd anturus**

---

**DYDD GWEDDI'R BYD**

**Eglwys Llangynnwr**

**Dydd Gwener, 3 Mawrth 2023**

**Oedfa Gymraeg am 10.30 / Oedfa Saesneg am 2.00**

---




**Grŵp Menopos Nesaf**

**Nos Lun**
**6 Chwefror 2023**
**am 6**
**yn y**
**Llwyn Iorwg**

---

## CRISTION

Cyhoeddir pob deufis gan bwyllgor aml enwad o eglwysi Anghydffurfiol ac Anglicanaidd. Mae'n cynnwys erthyglau ar destunau. Cristnogol yng Nghymru, eitemau newyddion, adolygiadau o lyfrau, llythyron a chystadlaethau

Pris: £1.50 Am gopi – Cysylltwch â Sulwyn Thomas

**At sylw holl aelodau cymuned**

**Capel y Priordy, Caerfyrddin**

Gair o ddiolch i chi i gyd am eich gofal, caredigrwydd a chefnogaeth i ni fel teulu yn dilyn marwolaeth Dad, Desmond Hayes ar Ragfyr yr 11eg.

Roedd Dad yn falch iawn o fod yn aelod o'r capel arbennig hwn dan ofalaeth ragorol Beti-Wyn ac er iddo golli'r nerth i fynychu'r capel ers peth amser roedd yn gwylio'r oedfa bob bore Sul ar 'Zoom', gyda'i fantra *'use it or lose it'* yn cael ei ailadrodd dro ar ôl tro!

Diolch arbennig i'r Parchedig Beti-Wyn James am arwain y gwasanaethau angladdol; yn y tŷ, wrth y bedd a'r gwasanaeth o ddiolchgarwach yn y capel ar ddydd Mercher, Rhagfyr 21ain.

Gwerthfawrogwn yn fawr wasanaeth cynnes, cefnogol a diflino aelodau'r capel ar ddiwrnod yr angladd; y tywyswyr, yr organyddes a'r rhai a fu'n gweini te ac yn gofalu am lesiant pawb yn y festri yn dilyn y gwasanaeth.

Gwyddom y byddwch yn parhau i ddangos gofal a chefnogaeth i ni fel teulu dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, ac yn enwedig i mam wrth iddi ddygymod â'r bwlch enfawr yn ei bywyd yn dilyn 63 mlynedd o briodas hapus.

Pob bendith i chi i gyd

**Sharon, John, Mike a Tim Hayes**

## Y DDIWEDDAR CHRISTINE O'HALLORAN (DAVIES)

Bu farw Christine yn dawel yn ei chartref yn Nôl yr Abaty ar 16 Rhagfyr 2022 wedi cystudd hir a wynebodd yn ddewr a llawen. Roedd Christine a'i diweddar chwaer, Cynthia, yn blant Y Priordy ac yn perthyn i deulu nodedig y Dyers.

Wedi derbyn ei haddysg elfennol ac addysg bellach yng ngholeg Pibwrlwyd, treuliodd beth amser yn gweithio yn swyddfa Cwmni Bysiau *Western Welsh* cyn symud i weithio yn y swyddfa docynnau yng ngorsaf drenau Caerfyrddin. Gwasanaethodd yno am 36 mlynedd, yn uchel ei pharch ymhlith ei chydweithwyr ac yn garedig a chymwynasgar iawn i'r cwsmeriaid.

Yn 2001, tra oedd ar daith yn Iwerddon, cyfarfu â Seamus. Dyma gychwyn ar bartneriaeth arbennig iawn, a bu'r ddau'n rhannu eu hamser rhwng Dôl yr Abaty a Tipperary.

Nid peth angyffredin oedd derbyn e-bost oddi wrth Christine yn dweud bod copi electronig o Bapur Priordy wedi cyrraedd Iwerddon! Cafodd Christine a Seamus flynyddoedd hapus iawn gyda'i gilydd gan fanteisio ar gyfleoedd i deithio i nifer o wledydd tramor.

Cofir am Christine fel gwraig garedig a chymwyasgar iawn, ac un yr oedd bod yn ei chwmni wastad yn brofiad llawen. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da dros y ddwy flynedd diwethaf, ond cafodd ofal arbennig gan Seamus. Priodwyd y ddau mewn seremoni dawel dair wythnos cyn i Christine ymadael â ni.

Cynhaliwyd oedfa yng Nghapel Gorffwys Login ar 4 Ionawr 2023 i ddiolch i Dduw am ei bywyd a'i gwaith. Gwasanaethwyd gan ei gweindiog. Roedd y gynulleidfa niferus a ddaeth ynghyd yn arwydd sicr o'r parch a fu iddi. Ymhen tridiau, rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym medd teuluol y teulu O'Halloran yn Tipperary.

Estynnnwn eich cydymdeimlad dwysaf â Seamus a'r cysylltiadau teuluol eraill i gyd.

**Ein Gweinidog**

# DYLETSWYDDAU

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Chwefror | | Mawrth | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Gwynfor Davies | Philip Jones | Emlyn Schiavone | Huw Jones |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwefror | 5 | | Mawrth | 5 | |
| | 12 | Ann Bowyer | | 12 | Fiona Elias |
| | 19 | | | 19 | |
| | 26 | Gill Owens | | 26 | Alwen Owen |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Chwefror | 5 | Bore | Meleri Llwyd O'Leary a Meinir Jones |
| Mawrth | 5 | Bore | Teulu Angharad Wyn |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwefror | 5 | Elen Marks | Mawrth | 5 | Carys Morgans |
| | 12 | Myfanwy Jones | | 12 | Gill Owens |
| | 19 | Huw Michael | | 19 | Y Mamau |
| | 26 | Y Plant | | 26 | Philip Jones |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Chwefror | Adrian Evans | Mawrth | Catrin Heledd Jones |

***DYMUNWN*** yn dda i bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sy’n gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd. Cyfeiriad newydd Ann Griffiths, un sydd wedi bod mor ffyddlon yn ein hoedfaon, yw Cartref Gofal Awel Tywi, Ffair-fach**.** Ein cofion annwyl atoch i gyd.

Bu Elinor Wyn Reynolds ar **Heno Nos Galan** ar **S4C y**n trafod *Geiriau 2022*. A gyda llaw, ei hwgrym ar gyfer gair y flwyddyn yn 2023 yw ‘anwyddoldeb’ – bod yn braf, bod yn gymwynasgar, bod yn hyfryd. Tybed beth fyddai’ch awgrym chi?

Bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn dod i Sir Gâr eleni a gwelwyd sawl aelod yn y Priordy yn y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd i’w lansio yng Nghapel Gellimanwydd, Rhydaman ac a ddangoswyd ar **Dechrau Canu, Dechrau Canmol** ar **S4C**.



O sôn am **S4C**, mae’n siŵr hefyd fod amryw ohonom wedi bod yn gwylio **Yr Amgueddfa**, sef y gyfres ddrama Gymraeg boblogaidd o waith Fflur Dafydd ac yn cael blas ar y cyfan o Sul i Sul.

Cymerodd Carys Morgans ran yn y rhaglen *Gwneud Bywyd yn Haws - Hyder yn y Gweithle* ar **Radio Cymru.** Bu’n trafod cynnal cyrsiau adnabod personoliaeth gyda’r cyflwynydd Hanna Hopwood. Mae Carys yn Bennaeth Staff a Swyddog Monitro gyda Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Mae hefyd yn coladu newyddion Salem, ein gefaill eglwys, ar gyfer Papur Priordy o fis i fis.

Bardd y Mis ar **Radio Cymru** ym mis Ionawr oedd Aled Evans. Bu cyfle i ddod i’w adnabod yn well ar *Pum Munud gyda Bardd y Mis* ar **bbc cymru fyw**. A dyma sut yr ymatebodd i gwestiwn yn gofyn pwy fyddai’i ddewis petai’n gallu bod yn fardd arall am ddiwrnod- byw neu hanesyddol:

*Rwy'n edmygu Iorwerth Fynglwyd [bardd a flodeuai yn chwarter cyntaf yr 16g] a'i ddoethineb sy'n parhau trwy'r canrifoedd:*

***Na chyfeiriwch i foryd***
***Na dŵr hallt heb fynd o'r rhyd.***

*Ond un llenor sydd wastad yn llwyddo i gipio'n anadl yw'r nofelydd Hanya Yanagihara [llenor o'r Unol Daleithiau]. Byddai meddu ar ei dawn hi am ddiwrnod yn rheswm da iawn i gadw'n effro am bob eiliad o'r pedair awr ar hugain.*

Roedd Aled hefyd yn aelod o Dîm Beirdd Myrddin a fu'n fuddugol yn erbyn Aberhafren ar y Talwrn ar **Radio Cymru** - rhaglen a recordiwyd yn ddiweddar yng Nghlwb y Cwins yng Nghaerfyrddin.




***LLONGYFARCHIADAU*** i David a Margaret Lewis sydd newydd ddathlu eu priodas ddeiamwnt. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol oddi wrth bob un ohonom yn y Priordy.

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mawrth i'n**
**Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

Estynnnwn ein cydymdeimlad cywir â Huw a Rhyswen Michael ar golli chwaer Rhyswen, sef Elizabeth Dilwen Pugh, Glascoed, Tregaron ar 2 Ionawr 2023. Meddyliwn am ei phriod Elwyn a'i mab Martin a'r teulu cyfan yn eu colled a'u hiraeth.

Tristwch oedd clywed am golli un o'n haelodau,
sef Dan Owen Evans, Hafan Tywi. Meddyliwn am ei briod, Iris, a'r plant a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.
Bydd teyrnged i Dan yn ein rhifyn nesaf.

.

**DIOLCH YN FAWR**



Diolch i Beti-Wyn, Jayne Woods, a Geraint Roberts am y lluniau'r mis hwn.

**AR Y WE: www. priordy.org** ***(yn cynnwys Papur Priordy)***

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **hwefror** | **5** | **Bore** | Ein Gweindog | **C** |
| | **12** | **Bore** | Ein Gweinidog | |
| | **19** | **Bore** | Ein Gweinidog | |
| ***Dathlu Gŵyl Dewi*** | **26** | **Bore**<br>**Hwyr** | Gwasanaeth Plant yn y Priordy am 10<br>Oedfa Gymun yn Elim am 5 | **C** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mawrth** | **5** | **Bore** | Ein Gweinidog | **C** |
| | **12** | **Bore** | Ein Gweinidog | |
| ***Sul y Fam*** | **19** | **Bore** | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | |
| | **26** | **Bore** | Y Parchedig Ainsley Griffiths | |

| **CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant**<br>**OD – Oedfa Deulu GGD- Gwasanaeth Gŵyl Dewi** | | | | | | | |
| **Chwefror** | | | | **Mawrth** | | | |
| **5** | **12** | **19** | **26** | **5** | **12** | **19** | **26** |
| ✓ | ✓ | **-** | **GGD** | ✓ | ✓ | **OD** | ✓ |

**Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu**
**Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen**

## DALIER SYLW

**Rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r**
**Suliadur mewn da bryd.**

**COFIWCH AM APÊL MIS CHWEFROR – GWELER TUDALEN 8**